

Y dychymyg yn drên

“Os yw dy law neu dy droed yn achos cwmp i ti, tor hi ymaith a’i thaflu oddi wrthyt.” (adn. 8)

Beth am ddarllen Mathew 18:1–9 ac yna myfyrio

Pan ddechreuwn edrych ar ein bywydau fel straeon, yna mae popeth yn newid. Dydy bodolaeth ddim yn cael ei resymoli ar bapur graff rhyw astudiaeth ond mae’n dod yn fyw yn symudiadau drama, lle mae peth ohoni eto i’w hysgrifennu. Mae llawer o Gristnogion wedi dweud yr hanes sut y bu i’r syniad mai stori yw eu bywydau hoelio eu sylw a thanio eu dychymyg mewn ffordd na fu i ddim arall ei wneud. William Kilpatrick, seicolegydd Cristnogol, sy’n honni “y gall y bywyd Cristnogol a’r bywyd dychmygol dyfu i fyny gyda’i gilydd”.

Fe aeth J.R.R. Tolkien mor bell â dweud y gallai Cristion, trwy gyfrwng dychymyg wedi ei sancteiddio, “gynorthwyo yn y dadleniad a’r ymgyfoethogiad o’r greadigaeth”. Roedd rhai o’r storiwyr mawr, megis George Macdonald, C.S. Lewis, G.K. Chesterton, Dorothy Sayers a Daniel Owen a Gwenallt gennym ni yn Gymraeg, nid yn unig yn sgwenwyr arbennig, ond hefyd yn amddiffynwyr y ffydd Gristnogol ar yr un pryd. Bu iddyn nhw agor bydoedd inni oherwydd y bydoedd oedd wedi eu hagar iddyn nhw wrth iddyn nhw drwytho eu meddyliau yn yr Ysgrhythur Sanctaidd.

A ddarllenoch chi stori enwog C.S. Lewis am y Gadair Arian rhyw dro? Ynddi mae brenhines hardd y byd tanddaearol bron â pherswadio’r plant yr uwchfyd mai ei theyrnas ddiflas hi ei hun yw’r unig realiti mewn gwirionedd, ac nad ydy eu teyrnas nhw ond yn freuddwyd ddychmygol. Mae’r tywysog ifanc, y ddau blentyn a’u cyd-deithiwr ‘Marsh-wiggle’, mewn perygl o gael eu rhwydo gan honiadau’r frenhines pan fo ‘Marsh-wiggle’, er mwyn rhwystro geiriau’r frenhines rhag cael gafael arnyd nhw, yn hyrddio’i droed i mewn i’r tân. Mae’r sioc yn ei helpu i wynebu realiti, ac, wrth iddo ef godi ei lais yn erbyn y frenhines, mae’r plant yn gweld y pwynt mae o’n ceisio ei wneud, yn rhedeg i fod wrth ei ochr ac yn dianc. Fedrwch chi feddwl am unrhyw beth sydd yn adeiladu’n fwy dychmygus ar eiriau ein Harglwydd a ddarllenom yn ein testun heddiw?

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gen. 32:22–31; Ioan 21:18–19; Actau 9:10–17

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd y gost gorfforol i Jacob o gael ei gyfoethogi’n ysbrydol?
2. Beth ddywedwyd wrth Pedr a Paul oedd eto i ddod yn eu bywydau?

Gweddi O Dad, un o’r rhesymau pam y gwn i fod dy Air yn ysbrydoledig ydy ei fod yn fy ysbrydoli i. Daw popeth yn fyw ynof fi wrth imi ei ddarllen. Helpa fi i agor bydoedd newydd i eraill wrth i ti agor bydoedd newydd i mi. Yn enw Iesu. Amen.